



DISGRIFIAD SWYDDOGAETH

Y CYNGHORYDD BWRDEISTREF SIROL A. MORGAN

Mae'r Disgrifiad Swyddogaeth yma'n berthnasol i'ch swyddogaeth yn:

- Aelod Etholedig
- Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Cabinet
 - Strategaeth a blaenoriaethau allweddol
 - Cyllid a Phennu'r Gyllideb
 - Rhaglen Gyflenwi a'r Cynllun Corfforaethol
 - Seilwaith Allweddol a'r Rhaglen Gyfalaf
 - Cydweithio a Phartneriaethau
 - Cysylltiadau Llywodraeth
 - Bargaen Ddinesig
 - Materion Diogelu'r Cyngor Cyfan
 - Cynllunio ar gyfer Argyfyngau a Chynllunio Sifil Wrth Gefn
 - Y Prifffyrdd, Cynnal a Chadw, a Rheoli Traffig
- Aelod sy'n cynrychioli'r Adain Weithredol ar y canlynol, neu sydd wedi'i benodi iddyn nhw:-
 - Fforwm Cyllideb Ysgolion
 - Panel Ymgynghorol Gweithwyr Cyflogedig
 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf
 - Aelod o'r Pwyllgor Penodi
 - Cadeirydd y Cydbwyllgor Ymgynghori
- Aelod sydd wedi'i benodi i'r Cyrff Allanol yma:-
 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
 - Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
 - Pwyllgor Bowls Dan Do Cwm Cynon
- Cyfranogwr mewn rhaglen Datblygu Aelodau briodol

EICH SWYDDOGAETH YN AELOD ETHOLEDIG

Yn atebol:

- I'r Cyngor llawn
- I'r Etholwyr

Diben a Gweithgaredd y Swyddogaeth:

Cynrychioli a bod yn gefn i'ch etholwyr a'ch cymunedau:

- Cynrychioli buddiannau eich Adran Etholiadol.
- Hyrwyddo'r Cyngor yn eich Adran Etholiadol a'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu.
- Bod yn ddolen gyswllt â'r gymuned ynghylch strategaethau, gwasanaethau, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.
- Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau/mudiadau lleol, gan fynd ar ôl achosion unigol ar eu rhan a gwasanaethu pawb mewn modd teg a chyfartal.
- Cysylltu ag Aelodau Gweithredol, Aelodau eraill o'r Cyngor, Swyddogion y Cyngor a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion y cymunedau lleol yn cael eu hadnabod, eu deall a'u diwallu.
- Hyrwyddo goddefgarwch a chydlynïad yn y cymunedau lleol.
- Ymateb i unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd (yn ôl yr angen) yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Gwneud penderfyniadau, a bwrw golwg ar gyflawniad y Cyngor:

- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn, dod i benderfyniadau gwybodus a chytbwys yn ôl yr wybodaeth briodol, a bwrw golwg ar gyflawniad y Cyngor.
- Parchu egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd ynglŷn â dod i benderfyniadau.
- Hyrwyddo trefniadau effeithiol ac effeithlon parthed darparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Bod yn effro i'r Polisi Diogelu Corfforaethol a chynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio ag ef.

Dolen gyswllt i'r Polisi:

<http://inform/en/policiesandprocedures/otherpolicies/corporatesafeguardingpolicy.pdf>

EICH SWYDDOGAETH YN ARWEINYDD Y CYNGOR AC YN GADEIRYDD Y CABINET

Yn atebol:

- I'r Cyngor llawn
- I'r Cabinet

Cyfrifoldebau:

- Darparu arweinyddiaeth wleidyddol ar gyfer y Cyngor, gan gynnwys cynnig fframwaith polisi ar gyfer gweithredu'r Cyngor a chymryd camau gweithredu a allai gael eu dirprwyo gan yr awdurdod.
- Bod yn llefarydd gwleidyddol ar ran y Cyngor.

- Bod wrth galon y gwaith o ddydd i ddydd o ran arweinyddiaeth wleidyddol, gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd, trwy'r awdurdod cyfan, â chymorth a chefnogaeth gan Aelodau o'r Cabinet yn unol â'u cyfrifoldebau priodol o ran eu portffolio.
- Bod yn ddolen gyswllt allweddol ar gyfer sefydliadau/mudiadau allanol (gan gynnwys Llywodraeth Ganolog, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartneriaid y Cyngor).
- Bod yn llais cynrychioliadol ar gyfer y Cyngor, er enghraifft, wrth ymdrin â sefydliadau allanol megis Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau Llywodraethu Corfforaethol, gan gynnwys gweithio gyda grwpiau'r gwrthbleidiau i geisio cyflawni cydweithredu trawsbleidiol, lle y bo'n bosibl.
- Cynrychioli'r Cyngor yn y gymuned leol, sicrhau cyfreithlondeb democrataidd, a hyrwyddo swyddogaeth Arweinyddiaeth Gymunedol y Cyngor o ran gwella ansawdd bywyd y bobl leol.
- Hyrwyddo dealltwriaeth well yn y cymunedau lleol o swyddogaethau'r Cyngor, gan wrando ar farn ac adrodd yn ôl i'r Cyngor yn unol â hynny.
- Cynrychioli'r holl bobl leol, a'r sefydliadau/mudiadau lleol, gan weithredu fel eiriolwr (yn enwedig o ran cwynion) ar gyfer y rhai sy'n cael trafferth siarad drostyn nhw eu hunain, i sicrhau bod eu hanghenion, eu blaenoriaethau a'u dyheadau yn cael eu deall ac yn cael ymateb.
- Ymrwymo, mewn modd amlwg, i'r ardal ac i waith adfywio cymunedol.
- Cymryd rhan yng ngweithgarwch y corff allanol rydych chi wedi eich penodi iddo fel cynrychiolydd y Cyngor, gan fod yn ddolen gyswllt ddwyffordd rhwng y Cyngor a'r sefydliad/mudiad ei hun. Hefyd, feithrin gwybodaeth ymarferol o bolisiau ac arferion y Cyngor mewn perthynas â swyddogaethau'r corff hwnnw.
- Bod yn rhan weithredol o fywyd y gymuned leol, trwy fynychu achlysuron cymunedol yn rheolaidd.
- Mynd ati i gysylltu â phobl, busnesau, sefydliadau/mudiadau a grwpiau allweddol yn y gymuned leol – a datblygu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer rhwydweithio/ymweliadau – i sicrhau cyfnewid gwybodaeth am weithgarwch a datblygiadau o fuddiant lleol.
- Sicrhau bod y Cabinet yn cyflawni ei gylch gorchwyl gyda'i gilydd ac fel deiliaid portffolios unigol.
- Cynnal rhestr yn Adran 3A o Ran 3 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n pennu pa Aelodau unigol o'r Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet, Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau penodol yr Adain Weithredol.
- Dewis Aelodau o'r Cabinet (o leiaf ddau Gynghorydd, ond nid mwy na naw) i chwarae rhan allweddol yn y broses benderfynu.
- Neilltuo meysydd cyfrifoldeb a phortffolios unigol i bob Aelod o'r Cabinet.
- Bod yn gyfrifol am y blaenoriaethau allweddol a datblygu polisi strategol mewn perthynas â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a Phartneriaethau Strategol, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Cymryd yr awenau o ran materion cyllid a rheoli'r gyllideb.
- Gweithio'n agos gyda phob Uwch Swyddog i fonitro ac i ofalu bod cyflawniad yn eich maes cyfrifoldebau yn gwella'n barhaus, sef:-
 - Cyllid a Phennu'r Gyllideb
 - Rhaglen Gyflenwi a'r Cynllun Corfforaethol

- Seilwaith Allweddol a'r Rhaglen Gyfalaf
 - Cydweithio a Phartneriaethau
 - Cysylltiadau Llywodraeth
 - Bargen Ddinesig
 - Materion Diogelu'r Cyngor Cyfan
 - Cynllunio ar gyfer Argyfyngau a Chynllunio Sifil Wrth Gefn
 - Y Prifffyrdd, Cynnal a Chadw, a Rheoli Traffig
- Cadeirio cyfarfodydd o'r Cabinet.

EICH SWYDDOGAETH YN HYRWYDDWR MATERION DIOGELU

Yn y Cyngor:

- Dealltwriaeth o'r meysydd penodol sy'n cael eu hyrwyddo o ran strategaethau a pholisi, arferion da, gwella ac agendâu cenedlaethol, ac anghenion y grŵp cleientiaid.
- Y gallu i ymgysylltu ag amrywiaeth o aelodau a swyddogion o amgylch y meysydd penodol a gwrandao ar y gofynion.
- Y gallu i fod yn eiriolwr ar ran y meysydd penodol yn y Cyngor.

Yn y gymuned

- Dealltwriaeth o anghenion y gymuned mewn perthynas â'r meysydd penodol.
- Y gallu i ymgysylltu â dinasyddion a grwpiau cymunedol ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r meysydd penodol.
- Y gallu i arwain ac i gefnogi mentrau lleol sy'n ymwneud â'r meysydd penodol.
- Y gallu i gynrychioli safle'r Cyngor i'r gymuned mewn perthynas â'r meysydd penodol.

EICH SWYDDOGAETH AR BWYLLGORAU GWEITHREDOL RYDYCH CHI WEDI'CH PENODI IDDYN NHW

- Cadeirio cyfarfodydd o'r Cabinet a bod yn gyfarwydd â'i gylch gorchwyl.

Cynrychioli'r Adain Weithredol

- Cynrychioli'r Adain Weithredol ar y canlynol:-
- Fforwm Cyllideb Ysgolion (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
- Panel Ymgynghorol Gweithwyr Cyflogedig (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf
- Aelod o'r Pwyllgor Penodi
- Cadeirydd y Cydbwyllgor Ymgynghori

Cynrychioli'r Cyngor

- Cynrychioli'r Cyngor ar y Cyrff Allanol canlynol rydych chi wedi'ch penodi iddyn nhw:
 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
 - Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
 - Pwyllgor Bowls Dan Do Cwm Cynon

Noder: Dyw cynrychioli'r Cyngor ar gorff allanol ddim, o reidrwydd, yn golygu y byddwch chi'n cynrychioli buddiannau'r Cyngor yn y corff/sefydliad dan sylw. Bydd disgwyl ichi weithredu er budd y sefydliad/corff allanol, ac arfer barn annibynnol wrth ddod i benderfyniadau, yn unol â'ch dyletswydd o ofal ar y corff/sefydliad dan sylw.

- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff partneriaeth lleol (o'ch penodi iddyn nhw), gan hyrwyddo buddiannau a lles cyffredin y naill ochr a'r llall, a hybu cydweithredu.
- Cynrychioli a hyrwyddo'r Cyngor ar gyrff cenedlaethol ac mewn achlysuron cenedlaethol (o'ch penodi).

EICH SWYDDOGAETH YN AELOD O FWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF

Cynrychioli'r Cyngor yn eich swyddogaeth yn Arweinydd y Cyngor ar y cyrff canlynol, gan hyrwyddo buddiannau a lles cyffredin y naill ochr a'r llall, a hybu cydweithredu:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf

EICH SWYDDOGAETH YN AELOD O'R PWYLLGOR PENODI

Yn atebol:

- I'r Cyngor llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Penodi

Cyfrifoldebau:

- Argymhell penodi Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, a Phrif Swyddogion, i'r Cyngor.
- Penodi Swyddogion ar Lefel Cyfarwyddwr Gwasanaeth

EICH SWYDDOGAETH YN GADEIRYDD Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHORI

Yn atebol:

- I'r Cyngor llawn

Cyfrifoldebau:

- Cadeirio cyfarfodydd o'r Cydbwyllgor Ymgynghori.
- Cyflawni'r swyddogaethau canlynol ar ran y Cyngor:

- Darparu fforwm ar gyfer cyfnewid sylwadau rhwng Aelodau etholedig ac Undebau Llafur mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar weithwyr.
- Ystyried materion penodol sy'n effeithio ar weithwyr sy'n cael eu cyfeirio at y Cydbwyllgor gan Aelodau o'r Cyngor, yr Undebau a'r Swyddogion.

DATBLYGU AELODAU

- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor, a chynnal y safonau gorau posibl o ran ymddygiad a moeseg yn y ffordd byddwch chi'n ymgymryd â'ch dyletswyddau.
- Ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ac anghenion hyfforddiant ychwanegol, e.e. mewn perthynas â'ch swyddogaeth briodol a fydd yn cael sylw yn rhan o'ch Cynllun Datblygiad Personol parhaus.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu er mwyn gwella'ch dealltwriaeth o'ch swyddogaeth ar Bwyllgorau/Cyrff Allanol ac ati, byddwch chi wedi'ch penodi iddyn nhw.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu ar gyfer Aelodau/Cynghorwyr.

GWERTHOEDD

- Ymrwymo wrth werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - Bod yn agored a thryloyw
 - Bod yn onest a dilwgr
 - Bod yn oddefgar a pharchus
 - Bod yn anwahaniaethol a theg
 - Derbyn gwahaniaeth mewn diwylliant
 - Parchu cynaliadwyedd
 - Arweinyddiaeth gynhwysol

LlofnodA. Morgan.....

EnwAndrew Morgan.....

Dyddiad28th February 2019.....